Safonau ar gyfer Gwasanaethau Gofal Ysbrydol yn y GIG yng Nghymru 2010

Cyhoeddir y safonau hyn o dan adran 47 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol Iechyd Cymunedol a Safonau 2003

Cefnogir gan

Scottish Association of
Chaplains in Healthcare

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cynnwys

Cyflwyniad 1
Cydnabyddiaeth 2
Archwiliad 3
Diffiniad o'r termau 3
Safon 1 Gofal ysbrydol a chrefyddol 4
Safon 2 Mynediad i wasanaethau gofal ysbrydol 6
Safon 3 Gweithio gyda chymunedau ffydd a grwpiau credo 7
Safon 4 Staff cymorth 9
Safon 5 Addysg, hyfforddiant ac ymchwil 10
Safon 6 Adnoddau 12
Safon 7 Gofal ysbrydol i'r ysbyty neu'r uned 14
Cyfeiriadau 16
Llyfryddiaeth 16
Offeryn Hunanasesu:- 17
Cyflwyniad 17
Archwiliad 17
Defnyddio'r offeryn hunanasesu 17
Safon 1 Gofal ysbrydol a chrefyddol 18
Safon 2 Mynediad i wasanaethau gofal ysbrydol. 20
Safon 3 Gweithio gyda chymunedau ffydd a grwpiau credo 21
Safon 4 Cymorth staff 24
Safon 5 Addysg, hyfforddiant ac ymchwil 25
Safon 6 Adnoddau 27
Safon 7 Gofal ysbrydol i'r ysbyty neu'r uned 30

Cyflwyniad

Cyhoeddir y safonau hyn o dan bwerau adran 47 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol Iechyd Cymunedol a Safonau 2003. Fe'u cyflwynir i hwyluso archwilio gwasanaethau gofal ysbrydol a chrefyddol, i sicrhau cydraddoldeb ar draws gwasanaethau ac i ddatblygu dull integredig o gyflenwi gofal ysbrydol a chrefyddol gan fod yn agored i amrywiaeth gwasanaethau ac anghenion lleol ar yr un pryd, ac i lywio a darparu sail dystiolaeth o arfer da ar gyfer datblygiad gofal ysbrydol a chrefyddol yn y GIG yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r safonau'n berthnasol i wasanaethau gofal ysbrydol a ariennir gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG.

Mae gan Gymru etifeddiaeth gyfoethog ac amrywiol o ddiwylliant, crefyddau a chredoau. Er bod gofal ysbrydol yn angen cyffredinol, ac y dylai felly fod ar gael i bob claf, boed yn oedolyn neu'n blentyn, fel rhan o ofal holistaidd, mae anghenion crefyddol cymunedau ffydd neu grwpiau credo yn benodol ac yn dod o dan yr agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth. Tasg gwasanaethau a safonau gofal ysbrydol yw mynd i'r afael â'r ddau faes hwn yn gyfartal. Bwriad y safonau hyn yw bod yn agored i bob unigolyn a chynnwys pawb, er mwyn parchu credoau, ffyrdd o fyw a chefndiroedd diwylliannol amrywiol yn y GIG yng Nghymru heddiw. Er mwyn hwyluso'r dull agored hwn, mae termau cyffredin wedi cael eu datblygu a chânt eu disgrifio yn y diffiniad o dermau, e.e. defnyddir ***cymunedau ffydd*** i ddisgrifio'r rheini sy'n ystyried eu bod yn glynu wrth ffydd benodol tra bod ***grwpiau credo*** yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r rheini a fyddai'n cydnabod bod ganddynt gredoau unigol neu grŵp megis dyneiddiwr. Mae'r gweithgor yn cydnabod y ddealltwriaeth amrywiol o'r termau a'r anawsterau cyfathrebu a ddaw gyda dull agored a chynhwysiant fodd bynnag, elfen allweddol o ddarparu gofal ysbrydol a chrefyddol yw gweithio trwy'r gwasanaethau gofal ysbrydol i hwyluso a chefnogi gofal effeithlon, diogel o ansawdd da i wasanaethau a dinasyddion Cymru fel y disgrifir yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.

Mae'r safonau hyn yn berthnasol i holl wasanaethau'r GIG gan gynnwys gwasanaethau acíwt, cyffredinol a iechyd meddwl i blant, pobl ifanc ac oedolion. Lle mae'n fater o allu'r claf i gyfathrebu, yna byddai'r protocolau arferol yn berthnasol.

Yn hanfodol er mwyn deall cyd-destun y Safonau ar gyfer Gofal Ysbrydol y GIG mae sylweddoli lle maent yn cyd-fynd â *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru,* a sut y gellir eu darparu ar lefel leol i sicrhau bod gwasanaethau'n "bod y staff cywir yn gwneud y pethau cywir, ar gyfer y claf cywir yn y lle cywir ar yr adeg cywir".

Mae'r safonau Gofal Ysbrydol hyn yn pennu'r canlynol:

- y meini prawf ar gyfer yr hyn y gall cleifion, gofalwyr, staff a gwirfoddolwyr ei ddisgwyl gan Wasanaethau Gofal Ysbrydol yng Nghymru (Byddai angen datblygu'r rhain ar lefel leol a byddent yn ffurfio rhan o'r dogfennau strategol ym mhob sefydliad GIG yng Nghymru);
- y meini prawf ar gyfer y ffordd y caiff gwasanaethau gofal ysbrydol eu gweithredu gan y gwasanaeth sydd yn bennaf gyfrifol am gyflenwi gofal ysbrydol: Gwasanaethau Gofal Ysbrydol (Byddai angen datblygu'r rhain ar lefel leol a ffurfio rhan o'r dogfennau strategol ym mhob sefydliad yng Nghymru);

- galluoedd a chymwyseddau mewn Gofal Ysbrydol sy'n disgrifio ac yn asesu cymhwysedd proffesiynolion gofal iechyd unigol, yn cynnwys caplaniaid/rhoddwyr gofal ysbrydol, i ddarparu gofal ysbrydol (Byddai angen datblygu'r rhain ar lefel leol a ffurfio rhan o'r dogfennau strategol ym mhob sefydliad yng Nghymru);

Cydnabyddiaeth

Mae'r safonau hyn wedi cael eu haddasu o *'Standards for NHSScotland Chaplaincy Services 2007'* (Addysg GIG yr Alban, 2007). Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod cymorth a chaniatâd Addysg GIG yr Alban i ddefnyddio ac addasu'r safonau hyn gyda diolch. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cydnabod mewnwelediad a phrofiad y pedwar corff gofal ysbrydol: Bwrdd Caplaniaeth Gofal Iechyd y Deyrnas Unedig, Cymdeithas Caplaniaid Hosbisau a Gofal Lliniarol (AHPCC), Coleg Caplaniaid Gofal Iechyd (CHCC), a Chymdeithas Caplaniaid Gofal Iechyd yr Alban (SACH).

Archwiliad

Dylid cynnal archwiliad o wasanaethau gofal ysbrydol gan ddefnyddio Safonau Gwasanaethau Gofal Ysbrydol yn y GIG yng Nghymru o fewn blwyddyn i'w cyflwyno i ddarparu meincnod ar gyfer gwasanaethau gofal ysbrydol.

Dylid archwilio Safonau Gwasanaethau Gofal Ysbrydol yn y GIG yng Nghymru unwaith bob 3 blynedd. (Gellir archwilio nifer o safonau bob blwyddyn cyhyd â'u bod i gyd yn cael eu harchwilio o fewn cyfnod o 3 blynedd).

Er mwyn cynorthwyo'r broses archwilio, mae offeryn asesu wedi cael ei gynnwys gyda'r safonau hyn.

Diffiniad o'r termau

Grŵp credo	Unrhyw grŵp sydd â system gydlynus o werthoedd neu gredoau ond nad yw wedi ei ddosbarthu fel cymuned ffydd.
Caplan/Rhoddwr Gofal Ysbrydol	Person a benodir ac a gydnabyddir fel rhan o'r tîm gofal ysbrydol arbenigol mewn lleoliad gofal iechyd. Ei waith ef neu hi yw chwilio ac ymateb i'r rheini sydd yn mynegi angen ysbrydol a chrefyddol trwy ddarparu'r gofal priodol, neu hwyluso'r gofal hwnnw, trwy gysylltu â chynrychiolydd grŵp ffydd/cred priodol, gyda chaniatâd y claf.
Gwasanaethau Gofal Ysbrydol	Y gwasanaethau a ddarperir gan y rhoddwr gofal unigol neu'r tîm o roddwyr gofal arbenigol a gyflogir fel darparwyr/hwyluswyr gofal ysbrydol arbenigol. Yn aml, gelwir hyn yn Adran gofal Ysbrydol a Chrefyddol neu Fugeiliol. Mae gwasanaethau o'r fath yn ceisio ateb neu hwyluso'r gofal ysbrydol neu grefyddol priodol ar gyfer cleifion, gofalwyr a staff yn y GIG yng Nghymru.
Goruchwyliaeth glinigol	Mae goruchwyliaeth glinigol yn hanfodol i gynnal arfer gorau a sicrhau ymarfer diogel. Mae'n mynd i'r afael â lles cleifion/cleientiaid ac ymarferwyr. Mae fel arfer ar ffurf astudiaethau achos ac ymarfer adlewyrchol a chaiff ei hwyluso gan rywun â sgiliau cwnsela a goruchwylio – proffesiynolyn iechyd arall yn aml iawn fel seicolegydd clinigol. Ni ddylid drysu goruchwyliaeth glinigol ar gyfer caplaniaid gofal iechyd â goruchwyliaeth reoli neu oruchwyliaeth trwy'r gymuned ffydd. Dylid cynnal goruchwyliaeth glinigol yn ystod oriau gwaith heb unrhyw gost i'r ymarferydd.
Cymuned ffydd	Grŵp a gydnabyddir sydd yn rhannu system gred, ac fel arfer yn cynnal arferion crefyddol fel gweddïo, darllen o'r ysgrythur, myfyrio, a gweithredoedd cymunedol o addoli.
Gofal ysbrydol a chrefyddol	Rhoddir gofal crefyddol yn aml iawn yng nghyd-destun credoau, gwerthoedd, ffurfwasanaethau a ffordd o fyw a rennir mewn cymuned ffydd, gan aelodau o'r glerigaeth o ffydd y claf ei hunan Rhoddir gofal ysbrydol fel arfer mewn perthynas un i un, mae'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar y person ac nid yw'n gwneud unrhyw honiadau am argyhoeddiad personol ynghylch cyfeiriadedd bywyd Nid yw Gofal Ysbrydol yn grefyddol o reidrwydd. Mae gofal crefyddol, ar ei orau, bob amser yn ysbrydol. (NHS HDL(2002) 76)

Safon 1 Gofal ysbrydol a chrefyddol

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Datganiad Safonol	Rhesymeg	Meini Prawf
Safonau 2, 5, 7, 8, 9, 10, 12, 14, 17, 18, 24, 25 a 26.	Asesir ac eir i'r afael ag anghenion ysbrydol a chrefyddol cleifion a'u gofalwyr.	Mae wedi cael ei ddangos bod gofal ysbrydol a chrefyddol yn bwysig i gleifion a chydnabyddir ei fod yn cael effaith arwyddocaol a buddiol ar ganlyniadau cleifion. Gellir asesu a mynd i'r afael ag anghenion ysbrydol a chrefyddol gan aelodau o'r tîm gofal iechyd, sydd yn cynnwys y caplan/rhoddwr gofal ysbrydol, neu gyda chaniatâd y claf, trwy gysylltu â chynrychiolydd ffydd y claf ei hun. Oherwydd y gall anghenion ysbrydol a chrefyddol newid o eiliad i eiliad, mae proses o asesu parhaus yn galluogi proffesiynolion gofal iechyd i fod yn fwy ymatebol i gleifion ac anghenion eu teulu/gofalwr. Mae gan Gaplaniaid/Rhoddwyr gofal ysbrydol arbenigedd mewn gofal ysbrydol a chrefyddol a chan ddefnyddio diogelwch eu system gredo eu hunain, maent yn gallu dirnad ac asesu anghenion ysbrydol a chrefyddol pob claf a, lle y bo'n briodol, eu gofalwyr: e.e. rhieni cleifion sydd yn blant a phobl ifanc a gofalwyr oedolion ag analluedd. Dylid diogelu cleifion rhag ymweliadau nas dymunir gan gynrychiolwyr neu grwpiau ysbrydol a chrefyddol. **Cyfeiriadau** Mae angen cymorth ar bawb, p'un a ydynt yn grefyddol ai peidio, a phan fyddant yn wynebu salwch neu anaf difrifol neu un lle mae bywyd yn y fantol, efallai y bydd ganddynt anghenion ysbrydol ac yn croesawu gofal ysbrydol wrth iddynt geisio ymdopi â dioddefaint, colled, ofn, unigrwydd, pryder, ansicrwydd, nam, trallod, dicter neu euogrwydd. Gall y rheini sy'n gysylltiedig â chymuned ffydd gael cymorth a chysur o'u credoau, o ddefodau a seremonïau eu fydd, a gweinidogaeth ei harweinwyr. Mae'n rhaid i'r GIG gynnig gofal ysbrydol a chrefyddol gyda'r un medr a brwdfrydedd. Rhoddir **Gofal Ysbrydol** yng nghyd-destun credoau, gwerthoedd, ffurfwasanaethau a ffordd o fyw a rennir gan gymuned ffydd. Rhoddir **Gofal ysbrydol** fel arfer mewn perthynas un i un ac mae'n canolbwyntio'n gyfan	**(a) Ysbrydol** 1.a.1 Asesir ac eir i'r afael ag anghenion ysbrydol a gallant gynnwys y canlynol: • archwilio syniad yr unigolyn o ystyr a diben mewn bywyd; • archwilio agweddau, credoau, syniadau, gwerthoedd a phryderon am fywyd a marwolaeth; • cadarnhau bywyd a gwerth trwy annog atgofion am y gorffennol; • archwilio gobeithion a phryderon yr unigolyn yn ymwneud â'r presennol a'r dyfodol; • archwilio pryderon yr unigolyn ynghylch sut bydd eu salwch yn effeithio ar eraill; • archwilio cwestiynau 'PAM?' mewn perthynas â bywyd, marwolaeth, salwch a dioddefaint. 1.a.2 Cysylltu ag adnoddau lleol neu genedlaethol am gymorth ysbrydol a chyda chaniatâd y claf, cysylltu â grwpiau/unigolion perthnasol. **(b) Crefyddol** 1.b.1 Asesir ac eir i'r afael ag anghenion crefyddol a gallant gynnwys y canlynol: • seremonïau; • myfyrio; • gweddi; • defodau; • sagrafennau; • addoli.

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Datganiad Safonol	Rhesymeg	Meini Prawf
		gwbl ar y person ac nid yw'n gwneud unrhyw honiadau nac unrhyw farn am y person, am ei argyhoeddiad personol na'i gyfeiriadedd bywyd. Nid yw Gofal Ysbrydol yn grefyddol o reidrwydd. Dylai Gofal Crefyddol, ar ei orau, fod yn ysbrydol bob amser. (NHS HDL (2002) 76) Dangoswyd bod materion ysbrydol yn bwysig i gleifion â chanser yr ysgyfaint neu fethiant y galon i'r graddau bod yr ymchwilwyr yn mynegi pryder am ddiffyg amser a sgiliau proffesiynolion gofal iechyd i fynd i'r afael â materion o'r fath. (Murray et al 2004) Mae gan ofal ysbrydol broses o asesu parhaus. Yr hyn sy'n allweddol i asesu o'r fath yw sgiliau gwybodaeth a gweithredoedd y tîm amlddisgyblaethol. Mae Caplaniaeth/Gofal Ysbrydol yn aml â'i wreiddiau mewn crefydd, fodd bynnag, mae ffydd bersonol caplan cyffredinol/rhoddwr gofal ysbrydol yn rhoi sylfaen lle gallant fynd ar daith gyda phobl o draddodiadau crefyddol gwahanol â'r rheini sydd â safbwyntiau gwahanol am fywyd. (Chaplin and Mitchell, 2005)	1.b.2 Gyda chaniatâd y claf hwyluso cyfeiriadau i grwpiau ffydd ac arweinwyr crefyddol lleol. **(c) Diogelu cleifion** 1.c.1 Diogelu cleifion a'u gofalwyr rhag ymweliadau nas dymunir gan grwpiau a chynrychiolwyr ysbrydol neu grefyddol. Fodd bynnag, mae angen i gaplaniaid/rhoddwyr gofal ysbrydol ddangos sensitifrwydd i amgylchiadau unigol.

Safon 2 Mynediad i wasanaethau gofal ysbrydol

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Datganiad Safonol	Rhesymeg	Meini Prawf
Safonau 2, 8, 9, 10 a 24.	Mae gan yr holl gleifion a gofalwyr wybodaeth am y gwasanaeth gofal ysbrydol a mynediad iddo.	Mae gofal iechyd effeithiol yn gofyn am ddull holistig o ofal iechyd yn cynnwys agweddau corfforol, seicolegol, cymdeithasol ac ysbrydol ar ofal. Er bod gan yr holl staff a'r gwirfoddolwyr y potensial i ddarparu neu hwyluso gofal ysbrydol mae gan roddwyr gofal ysbrydol arbenigedd penodol yn elfennau ysbrydol, crefyddol a diwylliannol gofal cleifion. **Cyfeiriadau** Dylai pob gwasanaeth iechyd wneud darpariaethau er mwyn dangos ystyriaeth bersonol gywir i'r claf, er enghraifft, trwy sicrhau bod preifatrwydd, urddas a chredoau crefyddol a diwylliannol y claf yn cael eu parchu. Mae cynnal asesiad ysbrydol yn dasg fedrus y gall y rheini sy'n gofalu'n uniongyrchol am gleifion a'u teuluoedd ei gwneud orau. Dylai staff sydd yn ymwybodol o angen ysbrydol fod yn rhagweithiol wrth gynnig gofal ysbrydol a chael mynediad i wasanaethau gofal ysbrydol. Dylai gofal ysbrydol fod yn wasanaeth hyblyg sydd yn cynnwys gofal 24 awr y dydd. Ni ddylid cyfyngu'r rôl i argyfyngau ac achosion brys. Mae gan roddwyr gofal ysbrydol ystod eang o brofiad a gwybodaeth arbenigol sy'n eu galluogi i weithio gyda staff, cleifion, a gofalwyr wrth archwilio meysydd angen (NAHAT, 1996).	2.1 Mae'r holl gleifion yn cael gwybodaeth ysgrifenedig mewn fformat priodol wrth gael eu derbyn yn cynnwys manylion y gwasanaeth gofal ysbrydol sydd ar gael yn yr uned. 2.2 Mae'r wybodaeth ysgrifenedig yn cynnwys esboniad o'r gwasanaeth gofal ysbrydol, enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gellid defnyddio'r gwasanaeth gofal ysbrydol a sut y gellir cael gafael ar y gwasanaeth gofal ysbrydol. 2.3 Cefnogir yr wybodaeth ysgrifenedig gan esboniad llafar o fynediad i'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn ystod asesiad. 2.4 Mae'r weithdrefn dderbyn yn sicrhau gwiriad bod gwybodaeth ysgrifenedig wedi cael ei rhoi. 2.5 Ceir protocol ysgrifenedig ar gyfer cyfeirio i'r gwasanaeth gofal ysbrydol, yn cynnwys y tu allan i oriau. (Noder: Gall y protocol ddarparu ar gyfer cyfeiriadau ar lafar)

Safon 3 Partneriaeth â chymunedau ffydd a grwpiau credo

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Datganiad Safonol	Rhesymeg	Meini Prawf
Safonau 2, 7, 8, 9, 10, 24 a 26.	Dylai gwasanaethau gofal ysbrydol weithio mewn partneriaeth â chymunedau ffydd a grwpiau credo er mwyn sicrhau darparu gofal crefyddol ac ysbrydol priodol ar gyfer cleifion a'u gofalwyr.	Cydnabyddir y gall cleifion a gofalwyr sydd yn aelodau o gymunedau ffydd a grwpiau credo fod â gofynion penodol y gellir ond eu darparu gan arweinwyr o'u cymunedau/grwpiau eu hunain, yn arbennig defodau a seremonïau (Gweler Safon 1 Maen Prawf 1.4). Oherwydd y gall ceisiadau cleifion ddod ar fyr rybudd mae'n hanfodol bod protocol cyfeirio lleol a bod gwasanaethau gofal ysbrydol yn cynnal ac yn adolygu cyfeirlyfr o gynrycholwyr ffydd ac arweinwyr grwpiau credo lleol a chenedlaethol yn cynnwys manylion cyswllt. Mae gan roddwyr gofal ysbrydol rôl yn hwyluso cyswllt, cynnal cysylltiadau, a chynghori cymunedau ffydd a grwpiau credo lleol ynghylch materion gofal iechyd yn ymwneud â gofal ysbrydol a chrefyddol. Ar ôl eu rhyddhau, arweinwyr y gymuned ffydd neu'r grŵp credo sydd fwyaf tebygol o ddarparu cymorth i'w haelodau eu hunain yn y gymuned. **Cyfeiriadau** Bydd rhoddwyr gofal ysbrydol amser cyflawn fel arfer yn gyfrifol am hwyluso gweinidogaeth arweinwyr crefyddol cymunedau ffydd, mewn ysbyty neu gyfleuster GIG arall, a all fod angen cymorth neu gyngor (NHS HDL (2002) 76).	3.1 Mae gwasanaethau gofal ysbrydol yn adnodd gwybodus o ofal ysbrydol a chrefyddol ar gyfer staff GIG ac arweinwyr cymunedau ffydd a grwpiau credo lleol. 3.2 Bydd gwasanaethau gofal ysbrydol yn cynnal cysylltiadau rhwng y GIG ac arweinwyr y gymuned ffydd a'r grŵp credo lleol e.e. trwy'r pwyllgor gofal ysbrydol a digwyddiadau hyfforddi. 3.3 Mae protocol ysgrifenedig wedi ei sefydlu ar gyfer staff y GIG i gyfeirio at arweinwyr cymunedau ffydd a chynrychiolwyr grwpiau credo lleol. Dylai'r protocol gynnwys arweiniad clir yn datgan y gellir ond cysylltu ag arweinwyr ffydd gyda chaniatâd y claf neu eu teulu/gofalwyr. 3.4 Mae cyfeirlyfr o rifau cyswllt ar gyfer cynrychiolwyr o gymunedau ffydd a grwpiau credo lleol ar gael mewn ysbytai ac unedau. Dylai'r cyfeirlyfr gynnwys rhifau cyswllt cenedlaethol ar gyfer cymunedau ffydd a grwpiau credo llai, neu rifau sy'n debygol o newid e.e. mae'r cynrychiolydd yn byw yn eu cartref eu hunain. 3.5 Dylid diweddaru'r cyfeirlyfr lleol yn rheolaidd a dylid ymgynghori â'r cymunedau ffydd a'r grwpiau credo yn rheolaidd yn ymwneud â'i gynnwys a'i ddiweddaru.

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Datganiad Safonol	Rhesymeg	Meini Prawf
		Ni ellir darparu gofal ysbrydol trwy weithio yn ynysig ac mae'n rhaid i roddwyr gofal ysbrydol allu gweithio'n effeithiol gyda rhoddwyr gofal ysbrydol eraill, proffesiynolion iechyd a gofal cymdeithasol, a chynrychiolwyr grwpiau neu gymunedau ffydd. (AHPCC, CHCC, SACH, 2005)	3.6 Mae llawlyfr yn amlinellu prif gredoau ac arferion y prif gymunedau ffydd a'r grwpiau credo ar gael ym mhob ysbyty ac uned. Lle caiff llawlyfr lleol ei ddefnyddio hefyd, dylid ymgynghori â'r cymunedau a'r grwpiau credo perthnasol a dylai'r llawlyfr hwn gynnwys: • Materion crefyddol/credo sy'n cael effaith ar ymarfer gofal iechyd gan awgrymu dewisiadau amgen e.e. trallwyso gwaed; • Anghenion crefyddol/credo sydd â goblygiadau ar gyfer arhosiad a lles y claf e.e. deiet, gweddi, defodau a seremonïau; • Beth i'w wneud os bydd marwolaeth annisgwyl e.e. crynodeb o arferion cyffredin, yr hyn y dylid ei wneud a'r hyn na ddylid ei wneud; • Gwybodaeth am weithredoedd neu sefyllfaoedd lle mae'n bwysig bod yn sensitif. 3.7 Mae protocol ysgrifenedig ar gyfer cysylltu a chyfnewid gwybodaeth sydd yn nodi cynrychiolwyr cymunedau ffydd a grwpiau credo wedi'i sefydlu. Dylai'r protocol barchu cyfrinachedd, glynu wrth ganllawiau ysbytai ar ddefnyddio gwybodaeth cleifion, a diogelu cleifion rhag ymweliadau nas dymunir (Gweler Safon 1 Maen Prawf 1.c.1).

Safon 4 Staff cymorth

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Datganiad Safonol	Rhesymeg	Meini Prawf
Safonau 2, 10, 25 a 26	Fel rhan o ddarpariaeth cymorth yr ysbyty neu'r uned ar gyfer staff a gwirfoddolwyr, mae'r caplan yn cynnig cymorth personol a phroffesiynol.	Cydnabyddir fod gweithio mewn lleoliad gofal iechyd yn straen a gall arwain at bobl yn cwestiynu eu credoau a'u hathroniaeth bersonol yn cynnwys eu dealltwriaeth o fywyd, marwolaeth, salwch, dioddefaint a materion moesegol. Gall cymhlethdod y materion hefyd achosi proffesiynolion i gwestiynu ac adlewyrchu ar eu credoau proffesiynol ac i dorri tir newydd. Mae gofal ysbrydol yn gallu cynnig adnodd gwybodus, cyfrinachol i alluogi unigolion a grwpiau i adlewyrchu ar eu credoau, eu hathroniaeth a'u hymarfer. **Cyfeiriadau** …bydd rhoddwyr gofal ysbrydol fel arfer yn gyfrifol am gefnogi staff trwy ofal bugeiliol, gweinidogaeth presenoldeb a, lle y bo'n briodol, cwnsela; mewn ymgynghoriad â gwasanaethau gwirfoddol lleol, dethol, hyfforddi, cefnogi a goruchwylio gwirfoddolwyr i weithio gyda'r caplan ac mewn mannau eraill. (NHS HDL (2002) 76)	4.1 Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn adeiladu perthynas waith gydag aelodau'r staff a gwirfoddolwyr. 4.2 Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn ymateb i geisiadau gan aelodau'r staff a gwirfoddolwyr am gymorth personol a phroffesiynol. 4.3 Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn ymateb i geisiadau gan aelodau'r staff a gwirfoddolwyr am gymorth ysbrydol a chrefyddol. 4.4 Gyda chaniatâd aelodau eraill o'r staff mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn hwyluso cyfeiriadau i ffynonellau cymorth eraill gyda safonau credadwy wedi'u sicrhau sy'n cyfateb i safonau'r GIG

Safon 5 Addysg, hyfforddiant ac ymchwil

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Datganiad Safonol	Rhesymeg	Meini Prawf
Safonau 21, 24, 25 a 26	Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn ymrwymedig i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus caplaniaid/rhoddwyr gofal ysbrydol ac mae'n cyfrannu at addysg broffesiynol, hyfforddiant a rhaglenni ymchwil y tîm gofal iechyd.	Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn y Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau yn galluogi caplaniaid/rhoddwyr gofal ysbrydol i ddatblygu eu galluoedd a'r potensial i gyflawni eu rôl yn y tîm gofal iechyd. Trwy DPP bydd y caplan yn gwybod yr hyn a ddisgwylir ganddynt, bydd yn cael adborth ar eu perfformiad a bydd yn gallu nodi a bodloni eu hanghenion datblygu. Mae cael mynediad i oruchwyliaeth glinigol unigol neu grŵp sydd yn canolbwyntio ar ymarfer adlewyrchol yn rhan annatod o DPP. Mae addysg a hyfforddiant staff gofal iechyd yn ymwneud â materion darparu gofal ysbrydol a chrefyddol, yn cynnwys rôl y caplan, yn gwella hyder a gwybodaeth gofal a gall wella gofal ar gyfer cleifion a'u gofalwyr. Gall cynyddu disgwyliadau a thechnolegau newydd, cyffuriau a thriniaethau godi cwestiynau moesegol i holl broffesiynolion gofal iechyd. Gall caplaniaid/rhoddwyr gofal ysbrydol profiadol fod yn adnodd gwybodus i gefnogi proffesiynolion gofal iechyd, cleifion a gofalwyr wrth drafod materion moesegol. Caiff hyrwyddo ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth ei alluogi a'i gefnogi trwy gymryd rhan mewn ymchwil. **Cyfeiriadau** Mae'r Bwrdd yn gwneud argymhellion yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant proffesiynol ar gyfer caplaniaid/rhoddwyr gofal ysbrydol ar bob lefel ac mae'n gweithredu cynllun ar gyfer rhoi pwyntiau cydnabyddiaeth o ran addysg broffesiynol barhaus (CAAB, 2005). Mae Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau'r GIG yn diffinio ac yn disgrifio'r wybodaeth a'r sgiliau y mae angen i staff y GIG eu cymhwyso yn eu gwaith er mwyn cyflenwi gwasanaethau o ansawdd. (DoH 2004) Mae blaenoriaethau mewn gofal ysbrydol yn cynnwys hyfforddi grwpiau gwahanol o staff ar effaith bosibl cyflenwi gofal ysbrydol i gleifion a'u perthnasau, a rôl bosibl grwpiau staff yn hyn o beth (NHS QIS, 2005).	5.1 Mae gwasanaethau gofal ysbrydol yn ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn y Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau ac mae pob rhoddwr gofal ysbrydol yn cadw cofnod blynyddol/portffolio sy'n rhoi tystiolaeth o DPP. Gall hyn gynnwys: • Presenoldeb neu gyflwyniad mewn cynadleddau; • Addysg ffurfiol (cyrsiau a fynychwyd neu a ddysgwyd); • Yr addysgu a gyflwynwyd; • Erthyglau a llyfrau a ysgrifennwyd neu a adolygwyd; • Clwb cyfnodolion; • Ymarfer adlewyrchol, e.e. Goruchwyliaeth Glinigol neu Addysg Fugeiliol Glinigol (CPE). 5.2 Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn cyfrannu at sefydlu staff ar gyfer aelodau newydd o'r tîm gofal iechyd. 5.3 Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn cyfrannu at raglen addysg a hyfforddiant y tîm gofal iechyd. Gall y testunau gynnwys: • Gofal Ysbrydol a Chrefyddol; • Rôl y Gwasanaeth gofal Ysbrydol a rhoddwyr gofal Ysbrydol; • Colled, Galar a Phrofedigaeth; • Gwneud asesiad ysbrydol. • Materion amrywiol yn ymwneud â chrefydd a chred 5.4 Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn gwneud argymhellion ar gyfer adnoddau addysgol a hyfforddiant e.e. argymhellion ar gyfer llyfrgell yr uned, cwrs priodol neu bresenoldeb mewn cynhadledd.

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Datganiad Safonol	Rhesymeg	Meini Prawf
		Mae Caplaniaid/Rhoddwyr Gofal Ysbrydol yn system gymorth i'r rheini sy'n ymwneud â chyfyng gyngor moesegol a ddaw yn sgil datblygiadau technolegol a disgwyliadau uwch ar ddechrau a diwedd oes (NHS HDL (2002) 76) Mae meithrin diwylliant yn seiliedig ar ymchwil yn hanfodol i gefnogi hyrwyddo ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth. (SYWDU 2003, 62 t18) Dylai Caplaniaid/ adran neu dîm gofal ysbrydol gymryd rhan yn yr ymchwil e.e. cydweithredu â thimau ymchwil presennol a datblygu ac arwain wrth lywio cwestiynau a phrosiectau ymchwil (Speck, 2005).	5.5 Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol ar gael i'r tîm gofal iechyd fel adnodd gwybodus ar gyfer materion moesegol a thrafodaeth. E.e. gwasanaethu ar bwyllgor moeseg lleol, ar gyfer ymgynghori ar achosion unigol, cyfrannu at ddadl a thrafodaeth foesegol (Gweler maen prawf 7.4 hefyd). 5.6 Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn ymwybodol o ymchwil ac arfer gorau presennol ac mae'n ystyried ac yn gweithredu ei ganfyddiadau.

Safon 6 Adnoddau

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Datganiad Safonol	Rhesymeg	Meini Prawf
Safonau 2, 10, 12, 18, 20, 24, 25 a 26	Mae'r uned yn sicrhau bod y gwasanaeth gofal ysbrydol yn cael yr adnoddau i gyflawni safonau gwasanaeth, swydd-ddisgrifiad, goruchwyliaeth ac anghenion hyfforddiant.	Er mwyn galluogi caplaniaid/rhoddwyr gofal ysbrydol i gyflawni eu cylch gorchwyl fel proffesiynolyn gofal iechyd mae angen darparu'r safonau ar gyfer gwasanaethau gofal ysbrydol. Dylai pob aelod a gyflogir fel rhan o'r tîm gofal ysbrydol/adran gofal ysbrydol gael sesiwn sefydlu ar gyfer y swydd a gwneud hyfforddiant cyflwyniadol. Mae angen i aelodau'r gwasanaeth gofal ysbrydol gael mynediad i ddatblygiad proffesiynol parhaus, addysg a hyfforddiant i alluogi, cynnal a gwella eu sgiliau. Gall sefydliadau proffesiynol a grwpiau diddordeb arbenigol roi cyngor, ffynhonnell profiad a chyfleoedd datblygiad proffesiynol/personol ar gyfer unigolion ac unedau. **Cyfeiriadau** Dylai fod gan bob Sefydliad GIG, lle bynnag y bo'n ymarferol, naill ai Ystafell Dawel, Hafan Aml-ffydd neu Fan Addoli, neu ystafell ar gyfer cyfarfod ac addysgu. Gwybodaeth ac Arwyddion (NHSHDL (2002) 76) Dylid cael system ar gyfer dogfennu a chyfeirio cywir ar gyfer y rheini sy'n dymuno gofyn am ymweliad gan gaplan neu gynrychiolydd ffydd dewisol. Bydd gan gleifion a pherthnasau fynediad i ystafell addas ar gyfer adlewyrchu preifat, addoli neu ddefodau crefyddol. (NAHAT, 1996)	**(a) Dylai gwasanaethau gofal ysbrydol gynnwys:** 6.a.1 Mynediad i ardaloedd tawel a phreifat ar gyfer rhoi cymorth cyfrinachol i gleifion, gofalwyr a gwirfoddolwyr. 6.a.2 Mynediad i gyfleuster aml-ffydd sy'n dderbyniol ar gyfer defodau crefyddol pob ffydd. 6.a.3 Mynediad i systemau gwybodaeth cleifion ar gyfer darparu a hwyluso gofal ysbrydol neu grefyddol priodol a chofnodi gwybodaeth ac ymyriadau. 6.a.4 Mynediad i adeilad swyddfa a chymorth gweinyddol. 6.a.5 Mynediad i systemau cyfathrebu i hwyluso cyfathrebu mewnol a darpariaeth ar alwad. Er enghraifft: • Galwr, ffôn symudol • Mewnrwyd • E-bost 6.a.6 Digon o oriau i fodloni anghenion ysbrydol a chrefyddol cleifion, gofalwyr, staff a gwirfoddolwyr, yn cynnwys cyflenwad y tu allan i oriau. **Mae pob caplan/ rhoddwr gofal ysbrydol wedi:** 6.a.7 Cael sesiwn sefydlu ar gyfer eu swydd (caplaniaid/ rhoddwyr gofal ysbrydol newydd a benodwyd o 2010 ymlaen). 6.a.8. Gwneud hyfforddiant cyflwyniadol (caplaniaid/ rhoddwyr gofal ysbrydol newydd a benodwyd o 2010 ymlaen).

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Datganiad Safonol	Rhesymeg	Meini Prawf
			6.a.9 Arfarniad rheolaidd (yn flynyddol o leiaf) i adolygu datblygiad proffesiynol ac anghenion hyfforddiant. Dylid darparu'r anghenion a nodir. 6.a.10 Mynediad i oruchwyliaeth broffesiynol allanol (gweler maen prawf 5.1).
			(b) Byddai'n ddymunol i Gaplaniaid/ Rhoddwyr gofal ysbrydol gael:
			6.b.1 Cysylltiadau â chymdeithas gofal ysbrydol aml-ffydd, ryngenwadol broffesiynol a/neu 'grŵp ffydd', os oes un. e.e. • Cymdeithas Caplaniaid Hosbisau a Gofal Lliniarol (AHPCC) • Cymdeithas Caplaniaid yr Eglwys Gatholig mewn Gofal Iechyd (RCCHC) • Coleg Caplaniaid Gofal Iechyd (CHCC) • Cymdeithas Caplaniaid Gofal Iechyd yr Alban (SACH) • Bwrdd Caplaniaeth Gofal Iechyd y Deyrnas Unedig (UKBHC) 6.b.2 Meddu ar statws cydnabyddedig mewn cymuned ffydd neu grŵp credo prif ffrwd.

Safon 7 Gofal ysbrydol i'r ysbyty neu'r uned

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Datganiad Safonol	Rhesymeg	Meini Prawf
Safonau 2, 4, 5, 10, 12, 18, 24 a 25	Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn adnodd ar gyfer cynllun digwyddiad mawr yr ysbyty neu'r uned a digwyddiadau eraill y mae angen eu cydnabod a gweithredu yn eu cylch ar y cyd.	Mae gan wasanaethau gofal ysbrydol gyfraniad sylweddol i'w wneud pan fydd digwyddiad mawr wedi cael ei ddatgan er enghraifft rhoi cymorth i berthnasau a staff a chynnig cymorth ysbrydol a chrefyddol i gefnogi'r rheini sydd wedi eu hanafu neu sydd yn marw. Dylai polisïau a gweithdrefnau'n ymwneud â digwyddiadau mawr gynnwys y gwasanaeth gofal Ysbrydol. Gall digwyddiadau yn yr ysbyty neu'r uned, digwyddiadau allanol fel trychinebau naturiol, digwyddiadau'r byd, neu ddigwyddiadau personol fel marwolaeth aelod o'r staff greu anghenion unigol neu ar y cyd y mae'r Caplan yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â nhw, naill ai trwy ofal bugeiliol neu trwy gynnal seremoni addas ar y cyd. Lle y bo'n briodol dylid ystyried cynnwys cynrychiolwyr cymunedau ffydd neu grwpiau credo eraill. Trwy gyswllt rheolaidd, efallai y bydd gan y caplan farn ar y ffactorau arwyddocaol sy'n effeithio ar forâl yr uned. Gellir gwella morâl yr uned trwy godi materion a phryderon gyda rheolwyr heb dorri cyfrinachedd unigol. Trwy gysylltiadau â chymunedau lleol, cleifion, gofalwyr a staff, gall rhoddwyr gofal ysbrydol fod â barn a phrofiad y gellir ei ddefnyddio fel adnodd moesegol profiadol i lywio newidiadau wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd. **Cyfeiriadau** Mae gan roddwyr gofal ysbrydol ddyletswydd i ofalu am y cydweithwyr y maent yn gweithio gyda hwy. Mae angen cymorth, cysur a chwnsela ar y rheini sy'n wynebu sefyllfaoedd o straen mawr yn aml. Os caiff hwn ei ddarparu mewn ffordd sensitif ac amserol, gall leihau'r achosion o waeledd, absenoldeb a morâl isel. (NAHAT, 1996) Wrth ddeall perthynas ysbrydoldeb â gofal iechyd, mae caplaniaid/ rhoddwyr gofal ysbrydol yn cydnabod bod gan werthoedd, ystyr a chredoau ran bwysig ym mywyd a gwaith y sefydliad gofal iechyd. Mae'r dull neilltuol hwn yn galluogi'r caplan/rhoddwr gofal ysbrydol i fod yn adnodd i'r sefydliad a rhoi cipolwg ar ystod eang o faterion. (SYWDU, 2003)	7.1 Mae'r gwasanaeth ysbrydol yn cael ei gynnwys ym mholisïau a gweithdrefnau'r ysbyty neu'r uned ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau mawr. Er enghraifft • Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol wedi ei gynnwys yn y rhestr galw allan • Mae aelodau'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn cael eu cynnwys mewn ymarferion argyfwng • Defnyddio'r ganolfan gofal ysbrydol • Cyswllt â chymunedau ffydd a grwpiau credo lleol **Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn ymateb i**: 7.2 Ddigwyddiadau yn yr uned sy'n cael effaith ar staff ac sy'n gofyn am ymateb neu ddigwyddiad ar y cyd. Er enghraifft: • Marwolaeth neu salwch aelod o'r staff; • Digwyddiadau anarferol yn ymwneud â chlaf neu deulu. 7.3 Digwyddiadau y tu allan i'r uned sy'n cael effaith ar y staff ac sy'n gofyn am ymateb neu ddigwyddiad ar y cyd. Er enghraifft: • Trychinebau cenedlaethol; • Digwyddiadau'r byd; • Cofio / pen-blwyddi.

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Datganiad Safonol	Rhesymeg	Meini Prawf
			7.4 Ymwybyddiaeth o faterion neu ddigwyddiadau sy'n effeithio ar forâl neu weithrediad yr uned sy'n gofyn am ymwybyddiaeth reoli i'w ddatrys. Er enghraifft: • Rheoli newid; • Cyfathrebu. 7.5 Ceisiadau i ymgynghori ar faterion moesegol yn ymwneud ag ailstrwythuro, newidiadau i adeiladau, blaenoriaethau lleol ac arferion gwaith. Er enghraifft: • Ailstrwythuro gwasanaethau; • Effaith ar gleifion, gofalwyr a staff; • Cydraddoldeb ac amrywiaeth; (Gweler hefyd maen prawf 5.5)

Cyfeiriadau

AHPCC (2006) *Standards for Hospice and Palliative Care Chaplaincy*. 2il Rifyn. Llundain: Cymdeithas Caplaniaid Hosbisau a Gofal Lliniarol.

AHPCC, CHCC a SACH (2005) *Health Care Chaplains Code of Conduct,* Cymdeithas Caplaniaid Hosbisau a Gofal Lliniarol, Coleg Caplaniaid Gofal Iechyd, Cymdeithas Caplaniaid Gofal Iechyd yr Alban.

CAAB (2005) *Continuing Professional Development.* http://www.caabweb.org.uk/accreditation.asp (Defnyddiwyd Mawrth 2006)

Chaplin J. a Mitchell D. (2005) *Spirituality in Palliative Care*. Yn McIntyre R, Lugton J, golygyddion. Palliative Care-The Nursing Role. 2il rifyn. Elsevier Churchill Livingstone, Caeredin.

DoH (2004) *NHS Knowledge and Skills Framework (NHS KSF) and the Development review Process*. Adran Cyhoeddiadau Iechyd, Llundain

Murray, S. A., Kendall, M., Boyd, K., Worth, A. a Benton, F. T. (2004) 'Exploring the spiritual needs of people dying of lung cancer or heart failure: a prospective qualitative interview study of patients and their carers' *Palliative Medicine,* 18, 39-45.

NAHAT 1996 *Spiritual Care in the NHS: A guide for purchasers and providers.* Cymdeithas Genedlaethol Awdurdodau ac Ymddiriedolaethau Iechyd. Birmingham.

NHS HDL (2002) 76 *Spiritual Care in NHSScotland*. Llythyr Adran Iechyd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (2002) 76, Gweithrediaeth yr Alban, Caeredin.

NHS QIS (2005) *Report of the Scoping Study on the Provision of Spiritual Care in NHSScotland*, Gwella Ansawdd GIG yr Alban, Caeredin.

Siarter Cleifion 1991 *The Patient's Charter: A charter for Health*. Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn yr Alban. Gweithrediaeth yr Alban, Caeredin.

Speck, P. (2005) A standard for research in health care chaplaincy. *Journal of Health Care Chaplaincy.* 6 (1), 26-33.

SYWDC (2003) *Caring for the Spirit: A strategy for the chaplaincy and spiritual healthcare workforce*. Uned Datblygu Gweithlu De Swydd Efrog, Sheffield.

UKCC (1996) *Position statement on clinical supervision for nursing and health visiting*. Llundain: Cyngor Canolog y Deyrnas Gyfunol dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru, Caerdydd

Llyfryddiaeth

AHPCC (2006) *Guidelines for Hospice and Palliative Care Chaplaincy* Cymdeithas Caplaniaid Hosbisau a Gofal Lliniarol, www.ahpcc.org.uk

Coleg Caplaniaid Gofal Iechyd, Bwrdd Caplaniaeth Ysbyty'r Eglwys Rydd, Cyngor Caplaniaethau Ysbytai, Caplaniaethau Ysbytai yr Eglwys Gatholig (1993) Safonau Caplaniaeth Gofal Iechyd, Cyfarwyddiaeth Hyfforddiant y GIG, Bryste

DoH (2002) *National Minimum Standards and Regulations for Independent Health Care.* Yr Adran Iechyd, Llyfrfa Ei Mawrhydi. Norwich

MFGHC 2005 Draft Spiritual Healthcare Standards, Multifaith Group for Healthcare Chaplaincy, Llundain.

Mitchell, D. a Hibberd, C. (2004) *A Comparative Assessment of Hospice Chaplaincy Services*. Scottish Journal of Healthcare Chaplaincy 7 (1), 6-11.

Standards for NHSScotland Chaplaincy Services 2007, cefnogir gan Addysg y GIG ar gyfer yr Alban

Offeryn Hunanasesu

Cyflwyniad

Mae'r offeryn asesu hwn wedi cael ei ddatblygu i asesu ac archwilio'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau gofal Ysbrydol yn y GIG yng Nghymru.

Archwiliad

Bydd angen cynnal archwiliad o wasanaethau gofal ysbrydol gan ddefnyddio'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau gofal Ysbrydol yn y GIG yng Nghymru o fewn blwyddyn o'u cyflwyno i ddarparu meincnod ar gyfer gwasanaethau gofal ysbrydol.

Dylid archwilio'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau gofal Ysbrydol yn y GIG yng Nghymru unwaith bob 3 blynedd. (Gellir archwilio nifer o safonau bob blwyddyn cyhyd â'u bod i gyd yn cael eu harchwilio o fewn cyfnod o 3 blynedd).

Defnyddio'r offeryn hunanasesu

Mae pum colofn i'r offeryn hunanasesu, y mae angen cwblhau tri.

Meini Prawf	Mae'r golofn hon yn ddyblygiad o golofn *Meini Prawf* y safonau gofal ysbrydol
Cwestiwn hunanasesu	Mae'r golofn hon yn cyflwyno'r cwestiynau archwilio
Ateb a thystiolaeth	Mae'r golofn hon ar gyfer atebion i'r cwestiynau yn y golofn **Cwestiwn hunanasesu** a'r dystiolaeth i gefnogi'r ateb e.e. copïau o ddogfennau a phrotocolau ysgrifenedig, canlyniadau arolygon, polisïau a gweithdrefnau ac ati
Sylwadau'r adolygydd	Mae'r golofn hon yn galluogi'r adolygydd i roi sylwadau ar yr atebion a'r dystiolaeth
Bodlonwyd / heb ei fodloni	Mae'r golofn hon yn rhoi dewis sef **bodlonwyd** neu **heb ei fodloni**, fodd bynnag efallai y byddwch yn dymuno ychwanegu hwn trwy gynnwys **bodlonwyd yn rhannol** neu **yn gweithio tuag at**.

Safon 1 Gofal ysbrydol a chrefyddol

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Meini Prawf (safon 1)	Cwestiwn hunanasesu	Ateb a thystiolaeth	Sylwadau'r adolygydd	Bodlonwyd / heb ei fodloni
Safonau 2, 5, 7, 8, 9, 10, 12, 14, 17, 18, 24, 25 a 26	**(a) Ysbrydol**				
	1.a.1 Asesir ac eir i'r afael ag anghenion ysbrydol a gallant gynnwys y canlynol: • archwilio syniad yr unigolyn o ystyr a diben mewn bywyd; • archwilio agweddau, credoau, syniadau, gwerthoedd a phryderon am fywyd a marwolaeth; • cadarnhau bywyd a gwerth trwy annog atgofion am y gorffennol; • archwilio gobeithion a phryderon yr unigolyn yn ymwneud â'r presennol a'r dyfodol; • archwilio pryderon yr unigolyn ynghylch sut bydd eu salwch yn effeithio ar eraill; • archwilio cwestiynau 'PAM?' mewn perthynas â bywyd, marwolaeth, salwch a dioddefaint.	Sut ydych yn sicrhau yr asesir ac yr eir i'r afael ag anghenion ysbrydol a chrefyddol cleifion? (disgrifiwch y broses a sut y caiff ei harchwilio e.e. archwilio systemau gwybodaeth cleifion (nodiadau neu electronig), adborth cleifion ac ati.			
	1.a.2 Cysylltu ag adnoddau lleol a chenedlaethol i gael cymorth ysbrydol a chysylltu â grwpiau/unigolion lleol gyda chaniatâd y claf.	Pa systemau sydd wedi'u sefydlu i gysylltu ag adnoddau lleol ar gyfer cymorth ysbrydol? (rhowch fanylion e.e. mae cyfeirlyfr o rifau cyswllt ar gyfer sefydliadau lleol/cenedlaethol ar gael) (Gweler hefyd maen prawf 3.3)			
	(b) Crefyddol				
	1.b.1 Asesir ac eir i'r afael ag anghenion crefyddol a gallant gynnwys y canlynol: • seremonïau; • myfyrio; • gweddi; • defodau; • sagrafennau; • addoli.	Sut ydych yn sicrhau bod cleifion a'r rheini sydd yn bwysig iddynt wedi cael cyfle i rywun asesu a mynd i'r afael â'u gofynion crefyddol? (e.e. archwilio systemau gwybodaeth cleifion (nodiadau neu electronig), adborth cleifion ac ati)			

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Meini Prawf (safon 1)	Cwestiwn hunanasesu	Ateb a thystiolaeth	Sylwadau'r adolygydd	Bodlonwyd / heb ei fodloni
	1.b.2 Cyda chaniatâd y claf, hwyluso cyfeiriadau i grwpiau ffydd ac arweinwyr crefyddol lleol.	Pa systemau sydd wedi'u sefydlu i gyfeirio at grwpiau ffydd ac arweinwyr crefyddol lleol? (rhowch fanylion, e.e. mae cyfeirlyfr o rifau cyswllt ar gyfer sefydliadau lleol/cenedlaethol ar gael) (Gweler hefyd maen prawf 3.3)			
	(c) Diogelu Cleifion				
	1.c.1. Diogelu cleifion a'u gofalwyr rhag ymweliadau nas dymunir gan grwpiau a chynrychiolwyr ysbrydol neu grefyddol.	Sut y caiff cleifion eu diogelu rhag ymweliadau nas dymunir gan grwpiau neu gynrychiolwyr ysbrydol neu grefyddol? (e.e. a oes protocol ysgrifenedig i'r caplan/aelod o'r staff gysylltu/hysbysu cynrychiolwyr/arweinwyr ffydd o benderfyniad y claf? Gweler maen prawf 3.6)			

Safon 2 Mynediad i wasanaethau gofal ysbrydol.

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Maen Prawf (safon 2)	Cwestiwn hunanasesu	Ateb a thystiolaeth	Sylwadau'r adolygydd	Bodlonwyd / heb ei fodloni
Safoonau 2, 8, 9, 10 a 24	2.1 Mae'r holl gleifion yn cael gwybodaeth ysgrifenedig mewn iaith a fformat addas wrth gael eu derbyn yn cynnwys manylion y gwasanaeth gofal ysbrydol sydd ar gael yn yr uned.	A yw cleifion yn cael gwybodaeth ysgrifenedig am y gwasanaeth gofal ysbrydol? (atodwch gopi fel tystiolaeth)			
	2.2 Mae'r wybodaeth ysgrifenedig yn cynnwys esboniad o'r gwasanaeth gofal ysbrydol, enghreifftiau o sefyllfaoedd lle y gellid defnyddio'r gwasanaeth gofal ysbrydol a sut y gellir cael gafael ar y gwasanaeth gofal ysbrydol.	A yw'r wybodaeth: a. yn rhoi enghreifftiau o ba bryd i gysylltu â'r gwasanaethau gofal ysbrydol? (rhowch y dudalen/paragraff)			
		b. yn rhoi enghreifftiau o sefyllfaoedd lle y gellir defnyddio'r gwasanaeth gofal ysbrydol? (rhowch y dudalen/paragraff)			
		c. yn esbonio sut i gysylltu â'r caplan/rhoddwr gofal ysbrydol? (rhowch y dudalen/ paragraff)			
	2.3 Cefnogir yr wybodaeth ysgrifenedig gan esboniad llafar o fynediad i'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn ystod asesiad.	A yw'r llyfryn yn cael ei gefnogi gan esboniad ar lafar? (rhowch fanylion)			
	2.4 Mae'r weithdrefn dderbyn yn sicrhau gwiriad bod gwybodaeth briodol wedi cael ei rhoi.	Pa weithdrefn sydd wedi'i sefydlu i wirio bod gwybodaeth yn cael ei rhoi?			
	2.5 Ceir protocol ysgrifenedig ar gyfer cyfeirio i'r gwasanaeth gofal ysbrydol, yn cynnwys y tu allan i oriau. (Noder: Gall y protocol ddarparu ar gyfer cyfeiriadau ar lafar)	A oes protocol ysgrifenedig? (Atodwch gopi o'r protocol fel tystiolaeth)			
		Ble mae'r protocol ysgrifenedig yn cael ei gadw? (dylai fod yn fan sydd yn hygyrch i'r staff e.e. wardiau, nodiadau cleifion, rhwydwaith cyfrifiaduron lleol, llawlyfr gwasanaethau lleol ac ati)			

Safon 3 Partneriaeth â chymunedau ffydd a grwpiau credo

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Meini Prawf (safon 3)		Cwestiwn hunanaesu	Ateb a thystiolaeth	Sylwadau'r adolygydd	Bodlonwyd / heb ei fodloni
Safonau 2, 7, 8, 9, 10,17, 24 a 26	3.1	Mae gwasanaethau gofal ysbrydol yn adnodd gwybodus o ofal ysbrydol a chrefyddol ar gyfer staff GIG ac arweinwyr cymunedau ffydd a grwpiau credo lleol.	Ym mha ffyrdd y mae eich gwasanaethau gofal ysbrydol yn gweithredu fel adnodd i'r staff? (rhowch fanylion)			
			Ym mha ffyrdd y mae eich gwasanaethau gofal ysbrydol yn gweithredu fel adnodd i arweinwyr cymunedau ffydd a grwpiau credo lleol? (rhowch fanylion)			
	3.2	Bydd gwasanaethau gofal ysbrydol yn cynnal cysylltiadau rhwng y GIG ac arweinwyr y gymuned ffydd a'r grŵp credo lleol e.e. trwy'r pwyllgor gofal ysbrydol a digwyddiadau hyfforddi.	Ym mha ffyrdd y mae eich gwasanaethau gofal ysbrydol yn cynnal cysylltiadau â chymunedau ffydd a grwpiau credo lleol? (Rhowch fanylion)			
	3.3	Mae protocol ysgrifenedig wedi ei sefydlu ar gyfer staff y GIG i gyfeirio at arweinwyr cymunedau ffydd a chynrychiolwyr grwpiau credo lleol. Dylai'r protocol gynnwys arweiniad clir yn datgan y gellir ond cysylltu ag arweinwyr ffydd gyda chaniatâd y claf neu eu teulu/gofalwyr.	A oes protocol ysgrifenedig i staff y GIG gyfeirio at arweinwyr cymunedau ffydd a chynrychiolwyr grwpiau credo lleol? (Atodwch gopi o'r protocol fel tystiolaeth)			
			A yw'r protocol yn rhoi arweiniad clir ar dderbyn caniatâd y claf cyn cysylltu ag arweinwyr cymunedau ffydd a chynrychiolwyr grwpiau credo? (rhowch y dudalen/paragraff)			
	3.4	Mae cyfeirlyfr o rifau cyswllt ar gyfer cynrychiolwyr o gymunedau ffydd a grwpiau credo lleol ar gael mewn ysbytai ac unedau. Dylai'r cyfeirlyfr gynnwys rhifau cyswllt cenedlaethol ar gyfer cymunedau ffydd a grwpiau credo llai, neu rifau sy'n debygol o newid e.e. mae'r cynrychiolydd yn byw yn eu cartref eu hunain.	A oes cyfeirlyfr o rifau cyswllt ar gyfer cynrychiolwyr cymunedau ffydd a grwpiau credo lleol? (Atodwch gopi o'r cyfeirlyfr fel tystiolaeth)			
			A yw'r cyfeirlyfr yn cynnwys rhifau cyswllt cenedlaethol ar gyfer cysylltiadau a allai newid? (rhowch fanylion)			
			Lle mae'r cyfeirlyfr yn cael ei gadw? (e.e. mewn wardiau, ar y fewnrwyd)			
			Sut mae'r staff yn cael mynediad i'r cyfeirlyfr, yn cynnwys y tu allan i oriau?			

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Meini Prawf (safon 3)		Cwestiwn hunanaesu	Ateb a thystiolaeth	Sylwadau'r adolygydd	Bodlonwyd / heb ei fodloni
	3.5	Dylid diweddaru'r cyfeirlyfr lleol yn rheolaidd a dylid ymgynghori â'r cymunedau ffydd a'r grwpiau credo yn rheolaidd yn ymwneud â'i gynnwys a'i ddiweddaru.	Pryd cafodd y cyfeirlyfr ei ddiweddaru ddiwethaf?			
			Sut gwnaethoch chi gysylltu â chymunedau ffydd a grwpiau credo lleol (rhowch fanylion).			
	3.6	Mae llawlyfr yn amlinellu prif gredoau ac arferion y prif gymunedau ffydd a'r grwpiau credo ar gael ym mhob ysbyty ac uned. Lle caiff llawlyfr lleol ei ddefnyddio hefyd, dylid ymgynghori â'r cymunedau a'r grwpiau credo perthnasol a dylai'r llawlyfr hwn gynnwys: • Materion crefyddol/credo sy'n cael effaith ar ymarfer gofal iechyd gan awgrymu dewisiadau amgen e.e. trallwyso gwaed; • Anghenion crefyddol/credo sydd â goblygiadau ar gyfer arhosiad a lles y claf e.e. deiet, gweddi, defodau a seremonïau; • Beth i'w wneud os bydd marwolaeth annisgwyl e.e. crynodeb o arferion cyffredin, yr hyn y dylid ei wneud a'r hyn na ddylid ei wneud; • Gwybodaeth am weithredoedd neu sefyllfaoedd lle mae'n bwysig bod yn sensitif.	A yw copïau o'r llawlyfr yn cael eu defnyddio? (rhowch fanylion)			
			A oes llawlyfr lleol yn amlinellu prif gredoau ac arferion y prif gymunedau ffydd a'r grwpiau credo ar gael? (Atodwch gopi o'r llawlyfr fel tystiolaeth.			
			A yw'r llawlyfr lleol yn amlinellu materion crefyddol/credo a allai gael effaith ar arferion gofal iechyd ar gyfer pob crefydd/credo? (rhowch rif y dudalen/paragraff)			
			A yw'r llawlyfr lleol yn amlinellu anghenion crefyddol/credo sydd â goblygiadau ar gyfer lles y claf ar gyfer pob crefydd/credo? (rhowch rif y dudalen/paragraff)			
			A oes gan y llawlyfr lleol adran ar yr hyn y dylid ei wneud os bydd marwolaeth annisgwyl ar gyfer pob crefydd/credo? (rhowch rif y dudalen/paragraff)			
			A yw'r llawlyfr lleol yn cynnwys gwybodaeth am weithredoedd neu sefyllfaoedd lle mae sensitifrwydd yn bwysig ar gyfer pob crefydd/credo? (rhowch rif y dudalen/paragraff)			
			A ymgynghorwyd â chymunedau ffydd a grwpiau credo lleol wrth baratoi'r llawlyfr (rhowch fanylion)			
			Pryd gafodd y llawlyfr lleol ei ddiweddaru ddiwethaf ac a ymgynghorwyd â chymunedau ffydd a grwpiau credo lleol (rhowch fanylion)			
			Ble mae'r llawlyfr(au) yn cael ei gadw? (e.e. ar y wardiau)			

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Meini Prawf (safon 3)		Cwestiwn hunanaesu	Ateb a thystiolaeth	Sylwadau'r adolygydd	Bodlonwyd / heb ei fodloni
			Sut mae'r staff yn cael mynediad i'r llawlyfr(au), yn cynnwys y tu allan i oriau?			
			Pryd gafodd y llawlyfr(au) ei adolygu/diweddaru ddiwethaf?			
	3.7	Mae protocol ysgrifenedig ar gyfer cysylltu a chyfnewid gwybodaeth sydd yn nodi cynrychiolwyr cymunedau ffydd a grwpiau credo wedi'i sefydlu. Dylai'r protocol barchu cyfrinachedd, glynu wrth ganllawiau ysbytai ar ddefnyddio gwybodaeth cleifion, a diogelu cleifion rhag ymweliadau nas dymunir (Gweler Safon 1 Maen Prawf 1.c.1).	A oes protocol ysgrifenedig ar gyfer cysylltu a chyfnewid gwybodaeth gydag arweinwyr cymunedau ffydd/cynrychiolwyr grwpiau credo a nodir? (Atodwch gopi o'r llawlyfr fel tystiolaeth)			
			Ym mha ffyrdd y mae'r protocol yn glynu wrth ganllawiau'r ysbyty ar ddefnyddio gwybodaeth y claf? e.e. diogelu data, gwarcheidwaid Caldicott ac ati.			
			Ym mha ffyrdd y mae'r protocol yn diogelu cleifion rhag ymweliadau nas dymunir? (Gweler hefyd maen prawf 1.c.1)			

Safon 4 Cymorth staff

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Meini Prawf (safon 4)	Cwestiwn hunanasesu	Ateb a thystiolaeth	Sylwadau'r adolygydd	Bodlonwyd / heb ei fodloni
Safonau 2, 10, 25 a 26	4.1 Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn adeiladu perthynas waith gydag aelodau'r staff a gwirfoddolwyr.	Ym mha ffyrdd y mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn ceisio adeiladu perthynas gydag aelodau'r staff a gwirfoddolwyr? (rhowch fanylion yn cynnwys mentrau neu ymarfer i annog perthynas gyda staff/grwpiau gwirfoddol penodol)			
		A oes tystiolaeth o berthynas waith dda? (rhowch fanylion, e.e. arolwg staff/gwirfoddolwyr?)			
	4.2 Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn ymateb i geisiadau gan aelodau'r staff a gwirfoddolwyr am gymorth personol a phroffesiynol. .	Ym mha ffyrdd y mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn darparu cymorth personol a phroffesiynol i'r staff? (rhowch fanylion)			
		A yw achosion (nid cynnwys) cymorth yn cael eu cofnodi? (e.e. dyddiadur/cofnod yn nodi'r amser a dreuliwyd ac a oedd yn broffesiynol neu'n bersonol. Nid oes angen cofnodi enw na chynnwys, gan gadw cyfrinachedd)			
	4.3 Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn ymateb i geisiadau gan aelodau'r staff a gwirfoddolwyr am gymorth ysbrydol a chrefyddol.	Ym mha ffyrdd y mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn darparu cymorth ysbrydol a chrefyddol i'r staff?			
		A yw achosion (nid cynnwys) cymorth yn cael eu cofnodi? (e.e. dyddiadur/cofnod yn nodi'r amser a dreuliwyd ac a oedd yn broffesiynol neu'n bersonol. Nid oes angen cofnodi enw na chynnwys, gan gadw cyfrinachedd)			
	4.4 Gyda chaniatâd aelodau eraill o'r staff mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn hwyluso cyfeiriadau i ffynonellau cymorth eraill.	Sut mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn hwyluso cyfeiriadau i ffynonellau cymorth eraill (rhowch fanylion e.e rhestrwch yr adnoddau y cyfeiriwyd iddynt neu'r adnoddau sydd ar gael a'r weithdrefn gyfeirio)			

Safon 5 Addysg, hyfforddiant ac ymchwil

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Meini Prawf (safon 5)	Cwestiwn hunanasesu	Ateb a thystiolaeth	Sylwadau'r adolygydd	Bodlonwyd / heb ei fodloni
Safonau 21, 24, 25 a 26.	5.1 Mae gwasanaethau gofal ysbrydol yn ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn y Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau ac mae pob rhoddwr gofal ysbrydol yn cadw cofnod blynyddol/portffolio sy'n rhoi tystiolaeth o DPP. Gall hyn gynnwys: • Presenoldeb neu gyflwyniad mewn cynadleddau; • Addysg ffurfiol (cyrsiau a fynychwyd neu a ddysgwyd); • Yr addysgu a gyflwynwyd; • Erthyglau a llyfrau a ysgrifennwyd neu a adolygwyd; • Clwb cyfnodolion; • Ymarfer adlewyrchol, e.e. Goruchwyliaeth Glinigol neu Addysg Fugeiliol Glinigol (CPE).	A oes gan yr holl gaplaniaid/rhoddwyr gofal ysbrydol gofnod/portffolio diweddar o weithgaredd DPP? (rhowch fanylion, e.e. crynodeb o feysydd gweithgaredd ac amcanion o'r fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau)			
		Pan fydd ei hangen ar gyfer cofrestru A yw'r holl gaplaniaid/ rhoddwyr gofal ysbrydol wedi cyflawni'r lefel ofynnol o DPP er mwyn cofrestru fel caplan gofal iechyd? (rhowch fanylion e.e. nifer y pwyntiau sy'n ofynnol ac a gyflawnwyd)			
		Sut mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol:			
	5.2 Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn cyfrannu at sefydlu staff ar gyfer aelodau newydd o'r tîm gofal iechyd.	• yn cyfrannu at sefydlu staff? (rhowch fanylion)			
	5.3 Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn cyfrannu at raglen addysg a hyfforddiant y tîm gofal iechyd. Gall y testunau gynnwys: • Gofal Ysbrydol a Chrefyddol; • Rôl y Gwasanaeth gofal Ysbrydol a rhoddwyr gofal Ysbrydol; • Colled, Galar a Phrofedigaeth; • Gwneud asesiad ysbrydol. • Materion amrywiol yn ymwneud â chrefydd a chred	• yn cyfrannu at raglen addysg y tîm gofal iechyd? (rhowch fanylion)			
		• yn cyfrannu at raglen hyfforddiant y tîm gofal iechyd? (rhowch fanylion)			
	5.4 Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn gwneud argymhellion ar gyfer adnoddau addysgol a hyfforddiant e.e. argymhellion ar gyfer llyfrgell yr uned, cwrs priodol neu bresenoldeb mewn cynhadledd.	• Yn gwneud argymhellion ar gyfer adnoddau addysgol a hyfforddiant? (rhowch fanylion)			
	5.5 Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol ar gael i'r tîm gofal	• Yn gwasanaethu fel adnodd gwybodus			

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Meini Prawf (safon 5)	Cwestiwn hunanasesu	Ateb a thystiolaeth	Sylwadau'r adolygydd	Bodlonwyd / heb ei fodloni
	iechyd fel adnodd gwybodus ar gyfer materion moesegol a thrafodaeth. E.e. gwasanaethu ar bwyllgor moeseg lleol, ar gyfer ymgynghori ar achosion unigol, cyfrannu at ddadl a thrafodaeth foesegol (Gweler maen prawf 7.4 hefyd).	ar gyfer materion moesegol a thrafodaeth? (rhowch fanylion)			
	5.6 Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn cychwyn, yn cefnogi ac yn cyfrannu at ymchwil yn y lleoliad gofal iechyd, o fewn meysydd gofal ysbrydol a gofal ysbrydol a chrefyddol, e.e. prosiectau ymchwil lleol, prosiectau ymchwil aml-safle a phrosiectau ymchwil cenedlaethol.	• yn cychwyn, cefnogi ac yn cyfrannu at ymchwil yn yr uned? (rhowch fanylion)			
		• yn cychwyn, yn cefnogi ac yn cyfrannu at ymchwil o fewn gofal ysbrydol a gofal crefyddol? (rhowch fanylion)			
	5.7 Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn ymwybodol o ymchwil ac arfer gorau presennol ac mae'n ystyried ac yn gweithredu ei ganfyddiadau.	Ym mha ffyrdd y mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn sicrhau ei fod yn ymwybodol o ymchwil ac arfer gorau presennol? (rhowch fanylion)			
		Sut mae'r gofal ysbrydol yn ystyried ac yn gweithredu canfyddiadau ymchwil ac arfer gorau presennol? (rhowch fanylion)			

Safon 6 Adnoddau

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Meini Prawf (safon 6)		Cwestiwn hunanasesu	Ateb a thystiolaeth	Sylwadau'r adolygydd	Bodlonwyd / heb ei fodloni
Safonau 2, 10, 12, 18, 20, 24, 25 a 26	(a)	**Dylai gwasanaethau gofal ysbrydol gynnwys:**	**A oes gan y gwasanaethau gofal ysbrydol:**			
	6.a.1	Mynediad i ardaloedd tawel a phreifat ar gyfer rhoi cymorth cyfrinachol i gleifion, gofalwyr a gwirfoddolwyr.	2.b.1. fynediad i ardaloedd tawel a phreifat ar gyfer cymorth cyfrinachol?			
	6.a.2	Mynediad i gapel neu ystafell weddïo sy'n dderbyniol ar gyfer defodau crefyddol pob ffydd.	• mynediad i gapel neu ystafell weddïo (disgrifiwch).			
			• sut ydych chi'n sicrhau bod y capel neu'r ystafell weddïo yn dderbyniol i bob ffydd (rhowch fanylion)			
	6.a.3	Mynediad i systemau gwybodaeth cleifion ar gyfer darparu a hwyluso gofal ysbrydol neu grefyddol priodol a chofnodi gwybodaeth ac ymyriadau.	• mynediad i systemau gwybodaeth y cleifion?			
			• cofnodi ymyriadau yn systemau gwybodaeth cleifion?			
	6.a.4	Mynediad i adeilad swyddfa a chymorth gweinyddol.	• mynediad i adeilad swyddfa (rhowch fanylion)			
			• cymorth gweinyddol (rhowch fanylion)			
	6.a.5	Mynediad i systemau cyfathrebu i hwyluso cyfathrebu mewnol a darpariaeth ar alwad. Er enghraifft: • Galwr, ffôn symudol • Mewnrwyd • e-bost	• mynediad i systemau cyfathrebu i hwyluso cyfathrebu mewnol (rhowch fanylion)			
			• mynediad i systemau cyfathrebu i hwyluso cyflenwi ar alwad (rhowch fanylion)			
	6.a.6	Digon o oriau i fodloni anghenion ysbrydol a chrefyddol cleifion, gofalwyr, staff a gwirfoddolwyr, yn cynnwys cyflenwad y tu allan i oriau.	A oes digon o oriau i fodloni anghenion gofalwyr claf, staff a gwirfoddolwyr? (rhowch fanylion/tystiolaeth e.e. anallu i fodloni gofynion)			
			Beth yw eich ymrwymiad i gyflenwi gwasanaeth gofal ysbrydol y tu allan i oriau? (rhowch fanylion)			
			Sut mae eich gwasanaeth gofal ysbrydol yn bodloni'r ymrwymiad cyflenwi y tu allan i oriau? (rhowch fanylion/tystiolaeth)			
		Mae pob caplan/ rhoddwr gofal				

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Meini Prawf (safon 6)		Cwestiwn hunanasesu	Ateb a thystiolaeth	Sylwadau'r adolygydd	Bodlonwyd / heb ei fodloni
		ysbrydol wedi:				
	6.a.7	Cael sesiwn sefydlu ar gyfer eu swydd (caplaniaid/ rhoddwyr gofal ysbrydol newydd a benodwyd o 2010 ymlaen).	A yw'r holl gaplaniaid/rhoddwyr gofal ysbrydol wedi cael sesiwn sefydlu?			
	6.a.8.	Gwneud hyfforddiant cyflwyniadol (caplaniaid/ rhoddwyr gofal ysbrydol newydd a benodwyd o 2010 ymlaen).	A yw'r holl gaplaniaid/ rhoddwyr gofal ysbrydol wedi gwneud hyfforddiant cyflwyniadol?			
	6.a.9	Arfarniad rheolaidd (yn flynyddol o leiaf) i adolygu datblygiad proffesiynol ac anghenion hyfforddiant. Dylid darparu'r anghenion a nodir.	A yw'r holl gaplaniaid/ rhoddwyr gofal ysbrydol wedi cael arfarniad blynyddol yn y flwyddyn ddiwethaf?			
			A yw'r holl gaplaniaid/ rhoddwyr gofal ysbrydol wedi nodi eu hanghenion hyfforddiant?(rhowch fanylion)			
			A yw'r goblygiadau o ran adnoddau wedi cael eu nodi a'u cytuno? (rhowch fanylion)			
	6.a.10	Mynediad i oruchwyliaeth broffesiynol allanol (gweler maen prawf 5.1).	A oes gan y caplanrhoddwr gofal ysbrydol oruchwyliaeth allanol? (rhowch fanylion e.e goruchwyliaeth glinigol bob 4-6 wythnos neu CPE)			
	(b)	**Dylai Caplaniaid/ Rhoddwyr gofal ysbrydol:**				
	6.b.1	Yn ddymunol, fod â chysylltiadau â chymdeithas gofal ysbrydol aml-ffydd, ryngenwadol, broffesiynol a/neu 'grŵp ffydd', os oes un. e.e. • Cymdeithas Caplaniaid Hosbisau a Gofal Lliniarol (AHPCC) • Cymdeithas Caplaniaid yr Eglwys Gatholig mewn Gofal Iechyd (RCCHC) • Coleg Caplaniaid Gofal Iechyd (CHCC) • Cymdeithas Caplaniaid Gofal Iechyd yr Alban (SACH)	A yw'r holl gaplaniaid/ rhoddwyr gofal ysbrydol yn aelod o gymdeithas gofal ysbrydol proffesiynol a grŵp diddordeb arbenigol? (Rhowch fanylion e.e. AHPCC, CHCC, SACH)			
			A yw'r aelodaeth wedi ei chadarnhau? (e.e. llythyr/carden gyfredol yn cadarnhau'r aelodaeth)			

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Meini Prawf (safon 6)	Cwestiwn hunanasesu	Ateb a thystiolaeth	Sylwadau'r adolygydd	Bodlonwyd / heb ei fodloni
	6.b.2 Meddu ar statws cydnabyddedig mewn cymuned ffydd neu grŵp credo prif ffrwd.	A oes gan yr holl gaplaniaid/ rhoddwyr gofal ysbrydol statws a gydnabyddir gyda chymuned ffydd neu grŵp credo cydnabyddedig? (rhowch fanylion)			

Safon 7 Gofal ysbrydol i'r ysbyty neu'r uned

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Meini Prawf (safon 7)	Cwestiwn hunanasesu	Ateb a thystiolaeth	Sylwadau'r adolygydd	Bodlonwyd / heb ei fodloni
Safonau 2, 4 ,5, 10, 12, 18, 24 a 25.	7.1 Mae'r gwasanaeth ysbrydol yn cael ei gynnwys ym mholisïau a gweithdrefnau'r ysbyty neu'r uned ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau mawr. Er enghraifft • Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol wedi ei gynnwys yn y rhestr galw allan • Mae aelodau'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn cael eu cynnwys mewn ymarferion argyfwng • Defnyddio'r ganolfan gofal ysbrydol • Cyswllt â chymunedau ffydd a grwpiau credo lleol	Sut mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn cael ei gynnwys yng ngweithdrefn digwyddiad mawr yr ysbyty neu'r uned? (rhowch fanylion e.e. amlinellwch rôl y gwasanaeth gofal ysbrydol, e.e. ei gynnwys yn y rhestr galw allan, a chynnwys copi o'r adran berthnasol o'r llawlyfr polisi/gweithdrefnau)			
	Mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn ymateb i:	**Sut mae'r gwasanaeth gofal ysbrydol yn ymateb i:**			
	7.2 Ddigwyddiadau yn yr uned sy'n cael effaith ar staff ac sy'n gofyn am ymateb neu ddigwyddiad ar y cyd. Er enghraifft: • Marwolaeth neu salwch aelod o'r staff; • Digwyddiadau anarferol yn ymwneud â chlaf neu deulu.	• Ddigwyddiadau yn yr uned? (rhowch fanylion: Nid oes angen enw na chynnwys personol er mwyn cadw cyfrinachedd)			
	7.3 Digwyddiadau y tu allan i'r uned sy'n cael effaith ar y staff ac sy'n gofyn am ymateb neu ddigwyddiad ar y cyd. Er enghraifft:	• Digwyddiadau allanol? (rhowch fanylion)			

Gwneud yn dda, gwneud yn well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	Meini Prawf (safon 7)	Cwestiwn hunanasesu	Ateb a thystiolaeth	Sylwadau'r adolygydd	Bodlonwyd / heb ei fodloni
	• Trychinebau cenedlaethol; • Digwyddiadau'r byd; • Cofio / pen-blwyddi.				
	7.4 Ymwybyddiaeth o faterion neu ddigwyddiadau sy'n effeithio ar forâl neu weithrediad yr uned sy'n gofyn am ymwybyddiaeth reoli i'w ddatrys. Er enghraifft: • Rheoli newid; • Cyfathrebu.	• Materion neu ddigwyddiadau sy'n effeithio ar forâl neu weithrediad yr uned? (e.e. rôl eiriolaeth yn cynrychioli staff neu bryderon rheoli heb dorri cyfrinachedd)			
	7.5 Ceisiadau i ymgynghori ar faterion moesegol yn ymwneud ag ailstrwythuro, newidiadau i adeiladau, blaenoriaethau lleol ac arferion gwaith. Er enghraifft: • Ailstrwythuro gwasanaethau; • Effaith ar gleifion, gofalwyr a staff; • Cydraddoldeb ac amrywiaeth; (Gweler hefyd faen prawf 5.5)	• Ceisiadau am ymgynghoriad? (rhowch fanylion)			